

Safonau ar gyfer hyfforddiant ac addysg cychwynnol technegwyr fferyllol

Hydref 2017



Gellir atgynhyrchu testun y ddogfen hon (ond nid y logo a'r brandio) am ddim ac mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, cyn belled â'i fod wedi ei atgynhyrchu'n gywir a heb fod mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd hwn fel hawlfraint y Cyngor Fferyllol Cyffredinol a rhaid nodi teitl y ddogfen. Os ydych wedi dyfynnu deunydd gan drydydd parti, rhaid i chi gael caniatâd deiliad yr hawlfraint.

Cysylltwch â ni yn communications@pharmacyregulation.org os hoffech gopi o'r ddogfen mewn fformat gwahanol (er enghraifft, mewn print mwy neu mewn iaith wahanol).

© Cyngor Fferyllol Cyffredinol 2017

Cynnwys

Amdanom ni	4
Cyflwyniad	5
Y safonau a chofrestru'n dechnegydd fferyllol	6
Safonau ar gyfer hyfforddiant ac addysg cychwynnol technegwyr fferyllol.....	6
Rhan 1: Deilliannau dysgu	7
Disgrifio ac asesu deilliannau.....	7
Lefel astudio.....	8
Parthau astudio	8
1. Gofal â phobl yn ganolog iddo	9
2. Proffesiynoldeb	10
3. Gwybodaeth a sgiliau proffesiynol	11
4. Cydweithio	12
Rhan 2: Safonau ar gyfer darparwyr cyrsiau hyfforddiant ac addysg cychwynnol	13
Parth 1: Anghenion dethol a derbyn	13
Parth 2: Cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant.....	13
Parth 3: Rheoli, adnoddau a chapasiti	14
Parth 4: Monitro, adolygu a gwerthuso	15
Parth 5: Darparu cyrsiau, a'u dyluniad	15
Parth 6: Asesu cyrsiau.....	16
Parth 7: Cefnogi technegwyr fferyllol cyn-gofrestru dan hyfforddiant a'r profiad dysgu ...	17
Dogfennau cefnogol eraill	19

Amdanom ni

Y Cyngor Fferyllol Cyffredinol (CFFC) sy'n rheoleiddio fferyllwyr, technegwyr fferyllol a lleoliadau fferyllol cofrestredig yng Nghymru, Lloegr a'r Alban. Ein gwaith yw gwarchod, hybu a chynnal iechyd, diogelwch a lles y cyhoedd drwy gynnal safonau a ffydd y cyhoedd mewn fferylliaeth.

Mae ein prif swyddogaethau'n cynnwys:

- gosod safonau addysg a hyfforddiant fferyllwyr a thechnegwyr fferyllol, a chymeradwyo ac achredu eu cymwysterau a hyfforddiant
- cynnal cofrestr o fferyllwyr, technegwyr fferyllol a fferyllfeydd
- gosod y safonau y mae'n rhaid i weithwyr fferyllol proffesiynol eu cyrraedd gydol eu gyrfa
- ymchwilio i ofidiau nad yw gweithwyr fferyllol proffesiynol yn cyrraedd ein safonau, a gweithredu er mwyn cyfyngu ar eu gallu i ymarfer pan fo angen diogelu cleifion a'r cyhoedd
- gosod safonau ar gyfer fferyllfeydd cofrestredig sy'n ei gwneud yn ofynnol iddyn nhw ddarparu gwasanaeth diogel ac effeithiol i gleifion
- arolygu fferyllfeydd cofrestredig i gadarnhau eu bod yn cyrraedd ein safonau





Cyflwyniad

Mae gweithwyr fferyllol proffesiynol yn chwarae rôl hollbwysig yn y gwaith o sicrhau bod y cyhoedd a chleifion yn ddiogel, drwy ddarparu gofal diogel ac effeithiol. Mae diogelwch pobl wrth galon y safonau hyn a rhaid iddo fod yn ganolog i hyfforddiant ac addysg technegwyr fferyllol ymhob amgylchedd dysgu.

Nid anghenraid ar wahân yw diogelwch y cyhoedd a chleifion – mae wedi ei wreiddio yn yr holl safonau a meini prawf hyn. Rhaid i ddarparwyr cyrsiau a chyflogwyr flaenoriaethu diogelwch y cyhoedd a chleifion ymhob agwedd ar y cwrs a'i ddarpariaeth.

Mae'r ddogfen hon yn egluro'r safonau ar gyfer hyfforddiant ac addysg cychwynnol unrhyw un sydd am hyfforddi a chofrestru'n dechnegydd fferyllol ym Mhrydain. Bydd angen i gyrff dyfarnu a darparwyr cyrsiau gyrraedd y safonau a bodloni'r meini prawf a ddisgrifir yn y ddogfen hon, er mwyn iddynt allu cael eu cyrsiau wedi eu cymeradwyo gennym ni.

Dylid ystyried y safonau hyn ochr yn ochr â'r meini prawf cofrestru'n dechnegydd fferyllol, y fframwaith tystiolaeth ar gyfer darparwyr a'n safonau ar gyfer gweithwyr fferyllol. Gyda'i gilydd, mae'r pedair dogfen yn rhoi darlun llawn o anghenion hyfforddiant ac addysg cychwynnol technegwyr fferyllol.

Wedi eu gwreiddio o fewn y safonau addysg hyn, mae'r safonau ar gyfer gweithwyr fferyllol, sef y safonau proffesiynol y mae disgwyl i hyfforddeion eu cyrraedd wedi iddynt ymuno â'r gofrestr.

Y safonau a chofrestru'n dechnegydd fferyllol

Diben hyfforddiant ac addysg cychwynnol yw rhoi sylfaen eang sgiliau a rhinweddau i dechnegwyr fferyllol ar gam cynnar yn eu gyrfa. Dylai'r hyfforddiant ac addysg cychwynnol hyn eu galluogi i weithio mewn ystod eang o leoliadau fferyllol ymhob un o wledydd Prydain.

Yn gyffredinol, rhaid i ymgeiswyr gwblhau'r canlynol cyn gallu cofrestru'n dechnegwyr fferyllol:

- un o'r rhaglenni hyfforddiant gwybodaeth a gallu cymeradwy
- o leiaf ddwy flynedd o brofiad gwaith perthnasol yn y DU, dan oruchwyliaeth, cyfarwyddyd neu arweiniad fferyllol neu dechnegydd fferyllol y bu'r ymgeisydd yn uniongyrchol atebol iddo am o leiaf 14 awr yr wythnos.

Mae addysg technegwyr fferyllol yn hyblyg o ran y dull y mae'n cael ei darparu. Mae'r safonau'n cyfuno elfennau gwybodaeth ac elfennau gallu, er mwyn galluogi hyfforddeion i ddysgu ar sail profiad o weithdrefnau ac ymarfer clinigol, gweithredol a gwyddonol. Gall, felly, gael ei darparu wyneb yn wyneb, o bell, ar-lein neu mewn cyfuniad o'r dulliau hynny.

Safonau ar gyfer hyfforddiant ac addysg cychwynnol technegwyr fferyllol

Mae dwy ran i'r safonau:

- Rhan 1: deilliannau dysgu – yn cynnwys y sgiliau, gwybodaeth, dealltwriaeth ac ymddygiad y mae'n rhaid i hyfforddeion eu harddangos ar ddiwedd eu cyfnod hyfforddiant ac addysg cychwynnol
- Rhan 2: safonau ar gyfer darparwyr cyrsiau hyfforddiant ac addysg cychwynnol – yn nodi prif nodweddion y cyrsiau sy'n arwain at y deilliannau dysgu yn rhan 1 y safonau.


Mae'r safonau yn cynnwys y term 'gofal â phobl yn ganolog iddo' ac yn cyfeirio at 'berson' neu 'bobl'. Mae'r geiriau hyn yn golygu y 'person neu'r bobl sy'n derbyn gofal'. Fodd bynnag, er nad ydym wedi crybwyll gofalwyr na chynrychiolwyr cleifion yn benodol, mae'r termau hyn yn eu cynnwys nhw hefyd, yn dibynnu ar y cyd-destun. Mae hyn yn gyson gyda'n defnydd o'r gair 'person' a 'phobl' yn ein safonau ar gyfer gweithwyr fferyllol proffesiynol.

Rhan 1: Deilliannau dysgu

Safon: O gwblhau eu hyfforddiant ac addysg cychwynnol, bydd technegwyr fferyllol cyn-gofrestru dan hyfforddiant wedi cyflawni'r deilliannau dysgu a nodir yn y safonau hyn.

Disgrifio ac asesu deilliannau

Mae lefelau'r deilliannau a nodir yn y safonau hyn wedi eu seilio ar yr hierarchaeth asesu gallu adnabyddus, 'Triongl Miller':



Gan fod yr hyn sy'n cael ei asesu ymhob un o'r pedair lefel, mae'r anghenion asesu hefyd yn wahanol – er y bydd peth gorgyffwrdd. Yn gyffredinol, bydd cyflawni un lefel o driongl Miller yn dibynnu ar fod wedi cyflawni a rhagori ar y lefel flaenorol.

Lefel 1: Yn gwybod

Mae'r lefel hon yn ymwneud â gwybodaeth y gellir ei defnyddio yn y dyfodol i arddangos gallu. Gallai asesiadau gynnwys traethodau, arholiadau llafar ac arholiadau cwestiynau aml-ddewis.

Lefel 2: Yn gwybod sut

Profion cyd-destun – mae technegydd fferyllol cyn-gofrestru dan hyfforddiant yn gwybod sut i ddefnyddio gwybodaeth a sgiliau. Gallai asesiadau gynnwys traethodau, arholiadau llafar, llyfrau labordy a chwestiynau aml-ddewis.

Lefel 3: Yn dangos sut

Mae technegwyr fferyllol cyn-gofrestru dan hyfforddiant yn gallu arddangos eu bod yn gallu gweithio mewn amgylchedd dynwarddol neu go iawn. Gallai asesiadau gynnwys arholiadau clinigol strwythuredig ac asesiadau eraill wedi eu harsylwi; asesiadau cleifion dynwarddol; creu, gweithredu ac adrodd ar arbrawf; profion dosbarthu meddyginiaeth a chofnodi hanes meddygol claf.

Lefel 4: Yn gwneud

Yn gweithredu'n annibynnol ac yn gyson mewn sefyllfa gymhleth ond ddiffiniedig. Darperir tystiolaeth ar gyfer y lefel hon pan fo technegwyr fferyllol cyn-gofrestru dan hyfforddiant yn arddangos y deilliannau dysgu mewn sefyllfa gymhleth, gyfarwydd neu feunyddiol yn

rheolaidd ac yn gyson. Gallai asesiadau gynnwys arholiadau clinigol strwythuredig gwrthrychol neu asesiadau eraill wedi eu harsylwi.

Lefel astudio

Mae hyfforddiant ac addysg cychwynnol technegwyr fferyllol yn brofiad dysgu galwedigaethol, yn cyfuno dysgu a gweithio. Rhaid dylunio a darparu cyrsiau i o leiaf Lefel 3 y Fframwaith Cymwysterau Cenedlaethol (Cymru a Lloegr) neu Lefel 6 yn Fframwaith Cymwysterau a Chredydau'r Alban.

Parthau astudio

Mae'r deilliannau dysgu mewn pedwar parth:

1. Gofal â phobl yn ganolog iddo
2. Proffesiynoldeb
3. Gwybodaeth a sgiliau proffesiynol
4. Cydweithio

Mae pob parth a deilliant dysgu yn gydradd bwysig.



1. Gofal â phobl yn ganolog iddo

Bydd technegwyr fferyllol cyn-gofrestru dan hyfforddiant yn:

1. Cynnwys, cefnogi a galluogi pob person wrth wneud penderfyniadau ynghylch eu hiechyd, gofal a lles	Yn gwneud
2. Gwneud yn fawr o feddyginiaethau person er mwyn sicrhau'r canlyniadau gorau posibl	Yn gwneud
3. Gwrando ar y person a deall ei anghenion a'r hyn sy'n bwysig iddo	Yn gwneud
4. Rhoi pob gwybodaeth berthnasol i'r person mewn ffordd y gall ddeall, er mwyn iddo wneud penderfyniadau a dewisiadau doeth	Yn gwneud
5. Rhoi cyngor i bobl ar ddefnyddio'u meddyginiaethau a theclynnau yn ddiogel ac yn effeithiol	Yn gwneud
6. Cael gwybodaeth berthnasol gan bobl – gan gynnwys cleifion, gofalwyr a gweithwyr gofal iechyd eraill – a'i defnyddio'n briodol	Yn gwneud
7. Cydnabod a gwerthfawrogi amrywiaeth, a pharchu gwahaniaethau diwylliannol – gan sicrhau bod pob person yn cael ei drin yn deg beth bynnag ei werthoedd neu gredoau	Yn gwneud
8. Addasu gwybodaeth a chyfathrebiadau i ddiwallu gwahanol anghenion gwahanol gynulleidfaoedd	Yn gwneud
9. Defnyddio egwyddorion rheoli gwybodaeth a sicrhau cyfrinachedd cleifion	Yn gwneud
10. Hybu ffyrdd iach o fyw gan ddefnyddio adnoddau sydd ar gael a thechnegau wedi eu seilio ar dystiolaeth	Yn gwybod sut
11. Yn gallu rhoi cyngor iechyd y cyhoedd ac argymhell mentrau sgrinio iechyd neu iechyd cyhoeddus cydnabyddedig	Yn gwybod sut
12. Deall sut i ddiogelu pobl, yn enwedig plant ac oedolion agored i niwed	Yn gwybod sut

2. Proffesiynoldeb

Bydd technegwyr fferyllol cyn-gofrestru dan hyfforddiant yn:

13. Defnyddio crebwyll proffesiynol er budd mwyaf pobl	Yn gwneud
14. Adnabod a gweithio o fewn cyfyngiadau eu gwybodaeth a'u sgiliau, a chyfeirio at bob eraill pan fo angen	Yn gwneud
15. Deall sut i weithio o fewn y canllawiau a pholisiau lleol, rhanbarthol a chenedlaethol	Yn gwybod sut
16. Ymateb yn effeithiol i gwynion, digwyddiadau a chamgymeriadau mewn ffordd sy'n arddangos gofal â phobl yn ganolog iddo	Yn gwneud
17. Defnyddio gwybodaeth i wneud penderfyniadau effeithiol	Yn gwneud
18. Bod â chyfrifoldeb personol dros eu hiechyd a'u diogelwch eu hunain ac eraill, ac ymchwilio i bryderon am y gweithle a allai gyflwyno risg iddyn nhw eu hunain neu eraill	Yn gwneud
19. Arddangos sgiliau arwain o fewn cwmpas eu gwaith fel hyfforddai	Yn gwneud
20. Deall pan fo'u perfformiad eu hunain neu eraill yn cyflwyno risg ac ymateb yn briodol	Yn gwneud
21. Mynegi pryderon hyd yn oed pan nad yw'n hawdd gwneud hynny	Yn gwneud
22. Gweithredu'n onest ac yn agored pan fo pethau'n mynd o chwith	Yn gwneud
23. Defnyddio amrywiaeth o ddulliau'n effeithiol, gan gynnwys adborth, er mwyn monitro a myfyrio ar ymarfer, sgiliau a gwybodaeth	Yn gwneud
24. Cyflawni ystod o weithgareddau datblygiad proffesiynol parhaus (DPP)	Yn gwneud
25. Myfyrio a gweithredu ar adborth neu bryderon, ystyried yr hyn y gellir ei wneud i atal rhywbeth rhag digwydd eto	Yn gwneud

3. Gwybodaeth a sgiliau proffesiynol

Bydd technegwyr fferyllol cyn-gofrestru dan hyfforddiant yn:

26. Darparu gwasanaeth fferyllol diogel, effeithiol ac ymatebol	Yn gwneud
27. Bod â chyfrifoldeb personol dros gyflenwi meddyginiaethau'n gyfreithlon yn ddiogel ac yn effeithiol	Yn gwneud
28. Deall egwyddorion sylfaenol bioleg, microbioleg, ffisioleg a chemeg	Yn gwybod sut
29. Deall yr egwyddorion fferyllol sylfaenol sydd ar waith ar gyfer defnyddio meddyginiaethau o ran prosesau clefydau a thriniaeth cyflyrau clinigol sydd wedi eu hadnabod	Yn gwybod sut
30. Cadarnhau priodoldeb meddyginiaethau ar gyfer pobl wahanol	Yn gwneud
31. Cyrchu a chymodi gwybodaeth am feddyginiaethau person yn gywir	Yn gwneud
32. Asesu cyflenwad meddyginiaethau presennol person ac archebu meddyginiaethau a chynnyrch addas	Yn gwneud
33. Archebu, derbyn, cynnal a chyflenwi meddyginiaethau a chynhyrchion fferyllol eraill yn ddiogel, yn gyfreithlon ac yn effeithiol	Yn gwybod sut
34. Derbyn ceisiadau am feddyginiaethau, gan gynnwys presgripsiynau, a gwirio eu bod yn ddilys, yn glir ac yn ddiogel, a gweithredu pan fo problemau	Yn gwneud
35. Defnyddio systemau yn ddiogel i sicrhau bod meddyginiaethau'n cael eu cyflenwi'n ddiogel	Yn gwneud
36. Rhoi eitemau presgripsiwn at ei gilydd yn gywir	Yn gwneud
37. Cymhwyso egwyddorion fferyllol i'r gwaith o ffurfio, paratoi a pheccynnu meddyginiaethau a chynhyrchion	Yn gwybod sut
38. Sicrhau ansawdd cynhwysion er mwyn darparu meddyginiaethau a chynhyrchion yn ddiogel ac yn effeithiol	Yn gwybod sut
39. Cyflwyno eitemau presgripsiwn yn ddiogel ac yn effeithiol a gweithredu pan fo anghysonderau	Yn gwneud
40. Gwirio bod meddyginiaethau a chynhyrchion sydd wedi eu cyflenwi yn gywir	Yn gwneud

41. Gwneud cyfrifiadau fferyllol yn gywir er mwyn sicrhau diogelwch pobl	Yn gwneud
42. Adnabod adweithiau niweidiol i gyffuriau ac ymateb yn briodol	Yn gwneud
43. Cael gwared ar feddyginiaethau a chynnyrch fferyllol arall yn ddiogel ac yn gyfreithlon	Yn gwybod sut
44. Ymateb yn briodol i argyfyngau meddygol, gan gynnwys rhoi cymorth cyntaf	Yn gwybod sut
45. Adnabod camgymeriadau a digwyddiadau a fu bron ag arwain at gamgymeriadau ac ymateb yn effeithiol	Yn gwneud
46. Defnyddio egwyddorion rheolaeth glinigol	Yn gwneud
47. Deall egwyddorion strategaethau archwilio a gwella ansawdd, a sut i weithredu argymhellion yn effeithiol	Yn gwybod sut
48. Deall egwyddorion rheoli risgiau	Yn gwybod sut

4. Cydweithio

Bydd technegwyr fferyllol cyn-gofrestru dan hyfforddiant yn:

49. Arddangos y gallu i weithio'n effeithiol mewn tîm	Yn gwneud
50. Cyfathrebu a gweithio'n effeithiol gydag aelodau timau amlddisgyblaethol	Yn gwneud
51. Gwirio eu gwaith eu hunain a gwaith pobl eraill yn effeithiol	Yn gwneud
52. Cyfrannu at ddysgu a datblygiad pobl eraill	Yn gwneud
53. Blaenoriaethu amser ac adnoddau'n effeithiol er mwyn cyflawni amcanion	Yn gwneud

Rhan 2: Safonau ar gyfer darparwyr cyrsiau hyfforddiant ac addysg cychwynnol

Parth 1: Anghenion dethol a derbyn

Safon 1

Rhaid i brosesau dethol fod yn agored, yn glir, yn ddiduedd ac yn cadw at ddeddfwriaeth berthnasol er mwyn canfod ymgeiswyr sydd â'r nodweddion addas i hyfforddi'n weithwyr iechyd proffesiynol.

Meini prawf cyrraedd y safonau hyn

- 1.1 Rhaid i'r anghenion derbyn sicrhau bod ymgeiswyr yn addas i ymarfer fel hyfforddeion ar adeg y dethol.
- 1.2 Rhaid i feini prawf dethol fod yn glir ac yn ddiamwys. Rhaid iddynt gynnwys o leiaf
 - ateb gofynion penodol iaith Saesneg
 - ateb gofynion penodol rhifedd
 - gofynion academaidd eraill neu brofiad cyfwerth â lefel 2 cenedlaethol neu uwch
 - ystyried geirdaon cymeriad
 - ystyried gwiriadau iechyd
- 1.3 Rhaid i ymgeiswyr fod yn gweithio mewn amgylchedd fferyllol neu fod wedi sicrhau lle fel technegwyr fferyllol cyn-gofrestru dan

hyfforddiant, a chael eu goruchwyllo gan weithiwr fferyllol proffesiynol.

- 1.4 Rhaid i ddetholwyr ddefnyddio'r meini prawf dethol gyda chysondeb, mewn ffordd ddiduedd ac yn unol â deddfwriaeth berthnasol. Dylent gael eu hyfforddi i wneud hyn, a dylai'r hyfforddiant gynnwys cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant.

Parth 2: Cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant

Safon 2

Rhaid i bob agwedd ar hyfforddiant ac addysg technegwyr fferyllol fod wedi ei seilio ar egwyddorion cydraddoldeb ac amrywiaeth a chadw at bob deddf berthnasol.

Meini prawf cyrraedd y safon hon

- 2.1 Rhaid i gydraddoldeb ac amrywiaeth fod wedi eu gwreiddio yn nyluniad a darpariaeth cyrsiau.
- 2.2 Rhaid defnyddio data cydraddoldeb ac amrywiaeth wrth ddylunio a darparu cyrsiau, ac wrth gynllunio'r profiad cyfan o fod yn dechnegydd fferyllol cyn-gofrestru dan hyfforddiant.

2.3 Rhaid gwneud addasiadau rhesymol i gyrsiau ac asesiadau a helpu technegwyr fferyllol sydd ag anghenion arbennig i gyflawni'r deilliannau dysgu. Gellir addasu addysgu, dysgu ac asesu at y diben hwn, ond ni ellir addasu'r deilliannau dysgu.

Parth 3: Rheoli, adnoddau a chapasiti

Safon 3

Rhaid i gyrsiau gael eu cynllunio a'u cynnal yn defnyddio prosesau tryloyw sy'n dangos pwy sy'n atebol am beth ymhob cam o hyfforddiant ac addysg cychwynnol. Rhaid i'r cyfleusterau, seilwaith, arweinyddiaeth, staffio a chymorth staff fod yn ddigonol i allu darparu'r cwrs.

Meini prawf cyrraedd y safon hon

- 3.1 Rhaid i gynllun rheoli fod yn gefn i bob cwrs, a rhaid iddo gynnwys
- Atodlen rolau a chyfrifoldebau, yn yr amgylchedd dysgu ac addysgu a'r gweithle
 - Llinellau atebolrwydd, yn yr amgylchedd dysgu ac addysgu a'r gweithle
 - Strwythurau a phrosesau diffiniedig i reoli darpariaeth
 - Prosesau i adnabod a rheoli risgiau
- 3.2 Rhaid cael cytundebau yn eu lle yn amlinellu rolau a chyfrifoldebau pawb sydd ynghlwm wrth ddarparu cwrs.
- 3.3 Rhaid i bob technegydd fferyllol cyn-gofrestru dan hyfforddiant gael cytundeb dysgu yn manylu ar bob amgylchedd hyfforddi a dysgu. Rhaid i hyn amlinellu rolau, cyfrifoldebau, llinellau atebolrwydd a rhaid nodi hefyd pa gefnogaeth a gaiff hyfforddeion yn ystod y cwrs. Rhaid i ddarparwyr egluro sut y cân nhw sicrwydd y bydd cytundebau dysgu'n cael eu gweithredu'n llawn.
- 3.4 Rhaid i ddarparwyr cyrsiau gael gweithwyr fferyllol proffesiynol ynghlwm wrth y gwaith o ddylunio a darparu cyrsiau.
- 3.5 Ymhob amgylchedd hyfforddi a dysgu, rhaid bod:
- staff sydd â'r cymwysterau a phrofiad priodol
 - digon o staff o ddisgyblaethau perthnasol i ddarparu'r cwrs a chefnogi dysgu technegwyr fferyllol cyn-gofrestru dan hyfforddiant
 - adnoddau digonol i ddarparu'r cwrs
 - cyfleusterau sy'n addas at y diben
 - mynediad i adnoddau dysgu priodol
- 3.6 Rhaid i bawb sydd ynghlwm wrth y gwaith o reoli a darparu cwrs ddeall eu rôl a rhaid iddynt gael cefnogaeth i allu gwneud eu gwaith yn effeithiol.
- 3.7 Rhaid i bob technegydd fferyllol cyn-gofrestru dan hyfforddiant dderbyn cefnogaeth wrth ddysgu yn y gweithle. Rhaid bod systemau yn eu lle i gydgyssylltu gyda darparwyr cyrsiau yn rheolaidd ynghylch cynnydd technegwyr fferyllol cyn-gofrestru dan hyfforddiant.

Parth 4: Monitro, adolygu a gwerthuso

Safon 4

Rhaid monitro, adolygu a gwerthuso ansawdd cyrsiau mewn ffordd systematig a datblygol.

Meini prawf cyrraedd y safon hon

- 4.1 Rhaid i bob agwedd berthnasol ar gwrs gael ei monitro, adolygu a gwerthuso. Pan fo problemau yn cael eu hadnabod, rhaid iddyn nhw gael eu cofnodi a rhaid delio gyda nhw o fewn amserlen y cytunir arni.
- 4.2 Rhaid bod strwythur rheoli ansawdd yn ei le sy'n egluro'r gweithdrefnau monitro a gwerthuso. Rhaid i hyn nodi pwy sy'n gyfrifol, pryd bydd adolygu ac adrodd yn digwydd, ynghyd ag amserlen dybiedig ar gyfer gweithredu pan yn berthnasol.
- 4.3 Rhaid bod systemau ar waith i fonitro a gwerthuso safon yr addysgu, dysgu ac asesu, er mwyn sicrhau bod ansawdd yn cael ei gynnal ymhob amgylchedd dysgu.
- 4.4 Rhaid i'r gwaith o fonitro ac adolygu cyrsiau ystyried yr amgylchedd allanol, fferylliaeth yn enwedig, er mwyn sicrhau eu bod yn adlewyrchu datblygiadau yn y maes.
- 4.5 Rhaid bod darparu adborth i dechnegwyr fferyllol cyn-gofrestru dan hyfforddiant yn rhan o'r prosesau monitro, adolygu a gwerthuso.

Parth 5: Darparu cyrsiau, a'u dyluniad

Safon 5

Rhaid i gyrsiau ddatblygu'r sgiliau, y wybodaeth, y ddealltwriaeth a'r ymddygiad proffesiynol sydd eu hangen i gyflawni'r deilliannau a nodir yn rhan 1 y safonau hyn, drwy ddefnyddio strategaeth addysgu a dysgu gydlynol. Rhaid i ddyluniad a darpariaeth yr hyfforddiant ystyried barn rhanddeiliaid a rhaid iddynt sicrhau bod hyfforddeion yn ymarfer yn ddiogel ac yn effeithiol.

Meini prawf cyrraedd y safon hon

- 5.1 Rhaid defnyddio strategaethau sy'n dod â gwybodaeth, gallu a phrofiad gwaith ynghyd wrth ddylunio a darparu'r cyrsiau.
- 5.2 Rhaid i safonau'r CFFC ar gyfer gweithwyr fferyllol fod yn rhan o bob cwrs, a chael eu defnyddio'n weithredol. Diben hyn yw sicrhau bod technegwyr fferyllol cyn-gofrestru dan hyfforddiant yn gwybod beth fydd yn ddisgwyliedig ganddynt ar ôl cofrestru.
- 5.3 Rhaid cael strategaeth dysgu ac addysgu ar gyfer cyrsiau, sy'n nodi sut y bydd hyfforddeion yn cyflawni'r deilliannau a nodir yn rhan 1 y safonau hyn.
- 5.4 Rhaid i gyrsiau gael eu dylunio a'u darparu i ddatblygu'r sgiliau, gwybodaeth, dealltwriaeth ac ymddygiad sydd eu hangen i

allu cyflawni deilliannau dysgu rhan 1 y safonau hyn.

- 5.5 Rhaid i gyrrff dyfarnu a darparwyr cyrsiau gyrchu barn ystod o randdeiliaid – gan gynnwys cleifion, y cyhoedd a chyflogwyr – a'u hystyried wrth ddylunio a darparu eu cyrsiau.
- 5.6 Rhaid i gyrsiau gael eu hadolygu pan fo newidiadau sylweddol yn digwydd yn y maes, i sicrhau eu bod yn dal i fod yn berthnasol.
- 5.7 Rhaid i dechnegwyr fferyllol cyn-gofrestru dan hyfforddiant gael eu goruchwyllo mewn system gytûn ymhob amgylchedd hyfforddi a dysgu, i sicrhau bod cleifion wastad yn ddiogel.
- 5.8 Rhaid i dechnegwyr fferyllol cyn-gofrestru dan hyfforddiant wneud dim ond tasgau y maen nhw'n alluog ynddynt, er mwyn sicrhau na pheryglir diogelwch cleifion.
- 5.9 Rhaid i reoliadau cyrsiau fod yn briodol ar gyfer cyrsiau sy'n arwain at gofrestru proffesiynol. Hynny yw, rhaid iddynt flaenoriaethu proffesiynoldeb, diogelwch cleifion ac ymarfer diogel ac effeithiol.
- 5.10 Rhaid i bob darparwr cwrs a phob cyflogwr gael gweithdrefnau yn eu lle i ddelio gyda phryderon. Rhaid adrodd am bryderon difrifol a allai effeithio ar addasrwydd technegydd fferyllol cyn-gofrestru dan hyfforddiant ar gyfer cofrestru yn y dyfodol wrth y CFFC.

Parth 6 – Aseu cyrsiau

Safon 6

Rhaid bod gan gyrsiau strategaeth aseu sy'n aseu'r sgiliau, gwybodaeth, dealltwriaeth ac ymddygiad proffesiynol sydd eu hangen i gyflawni'r deilliannau yn rhan 1 y safonau hyn. Rhaid i'r strategaeth aseu aseu a ydy ymarfer technegwyr fferyllol cyn-gofrestru dan hyfforddiant yn ddiogel.

Meini prawf cyrraedd y safon hon

- 6.1 Rhaid i gyrsiau gael strategaeth aseu sy'n sicrhau bod y gwaith aseu yn wydn, yn ddibynadwy ac yn ddilys.
- 6.2 Rhaid i'r strategaeth aseu aseu'r deilliannau sydd yn rhan 1 y safonau hyn. Rhaid i'r dulliau a ddefnyddir fod yn briodol i'r hyn sy'n cael ei aseu; a rhaid alinio'r dysgu, yr addysgu a'r aseu.
- 6.3 Rhaid i'r strategaeth aseu gynnwys methodoleg i aseu penderfyniadau ynghylch gallu yn y gweithle ac amgylcheddau priodol eraill.
- 6.4 Rhaid i ddiogelwch cleifion wastad gael y flaenoriaeth, a rhaid i'r strategaeth aseu aseu a ydy'r technegydd fferyllol cyn-gofrestru dan hyfforddiant yn ymarfer yn ddiogel fel hyfforddai.
- 6.5 Rhaid bod systemau monitro yn eu lle ar gyfer pob amgylchedd hyfforddi a dysgu. Rhaid i'r systemau aseu cynnydd technegwyr fferyllol cyn-gofrestru dan

hyfforddiant tuag at gyflawni deilliannau dysgu rhan 1 y safonau hyn. Rhaid iddynt sicrhau bod ymarfer technegwyr fferyllol cyn-gofrestru dan hyfforddiant yn ddiogel ar bob adeg fel hyfforddai. Rhaid delio gyda phryderon cyn gynted â phosibl.

- 6.6 Rhaid cael cytundebau yn eu lle rhwng darparwyr cyrsiau a'r gweithle o ran rolau a chyfrifoldebau asesu.
- 6.7 Rhaid i asesiadau gael eu gwneud gan bobl sydd wedi eu hyfforddi'n briodol ac sydd â'r cymwysterau priodol i allu asesu perfformiad technegwyr fferyllol cyn-gofrestru dan hyfforddiant.
- 6.8 Rhaid cael sicrwydd ansawdd annibynnol ar gyfer prosesau asesu. Dylai person neu sefydliad allanol, gyda'r cymwysterau priodol, wneud y prosesau sicrhau ansawdd. Dylai'r person neu gorff hwnnw ddim bod yn gyflogai i'r darparwr ac nid all fod yn ymwneud â'r technegwyr fferyllol cyn-gofrestru dan hyfforddiant yn eu gwaith dydd i ddydd.
- 6.9 Rhaid i dechnegwyr fferyllol cyn-gofrestru dan hyfforddiant dderbyn adborth amserol a phriodol ar eu perfformiad, er mwyn cefnogi eu datblygiad fel dysgwyr a gweithwyr proffesiynol.
- 6.10 Rhaid i reoliadau asesu cyrsiau fod yn briodol ar gyfer cyrsiau sy'n arwain at gofrestru proffesiynol. Hynny yw, rhaid iddynt flaenoriaethu proffesiynoldeb, diogelwch cleifion ac ymarfer diogel ac effeithiol.

Parth 7: Cefnogi technegwyr fferyllol cyn-gofrestru dan hyfforddiant a'r profiad dysgu

Safon 7

Rhaid i dechnegwyr fferyllol cyn-gofrestru dan hyfforddiant dderbyn cefnogaeth ymhob amgylchedd dysgu yn ystod eu hyfforddiant ac addysg cychwynnol, er mwyn eu datblygu fel dysgwyr a gweithwyr proffesiynol.

Meini prawf cyrraedd y safon hon

- 7.1 Rhaid bod ystod o systemau ar waith i gefnogi hyfforddeion i gyflawni'r deilliannau dysgu yn rhan 1 y safonau hyn, gan gynnwys:
 - sefydlu mewn swydd
 - goruchwyliaeth effeithiol
 - llwyth gwaith realistig a phriodol
 - cefnogaeth bersonol ac academaidd
 - amser i ddysgu
 - mynediad at adnoddau
- 7.2 Rhaid bod systemau ar waith i alluogi technegwyr fferyllol cyn-gofrestru dan hyfforddiant i gwrdd yn gyson gyda chydweithwyr yn y gweithle i drafod a chofnodi eu cynnydd fel dysgwyr.
- 7.3 Rhaid bod cefnogaeth ar gael i dechnegwyr fferyllol cyn-gofrestru dan hyfforddiant o ran astudiaethau academaidd, lles cyffredinol a chynngor gyrfa.
- 7.4 Rhaid i dechnegwyr fferyllol cyn-gofrestru dan hyfforddiant allu cael mynediad at

weithwyr fferyllol proffesiynol sy'n gallu bod yn fodolau rôl a rhoi cyngor a chefnogaeth broffesiynol.

7.5 Rhaid i dechnegwyr fferyllol cyn-gofrestru dan hyfforddiant gael cyfle i weithio mewn timau amlddisgyblaethol.

7.6 Rhaid bod gweithdrefnau clir ar waith i dechnegwyr fferyllol cyn-gofrestru dan hyfforddiant allu mynegi pryderon. Rhaid delio gydag unrhyw bryderon yn brydlon, gydag unrhyw weithredu'n cael ei gofnodi, pan ddigwydd. Rhaid gwneud technegwyr fferyllol cyn-gofrestru dan hyfforddiant yn ymwybodol o ganllawiau'r CFfC ar fynegi pryderon ynghylch hyfforddiant ac addysg fferyllol.

7.7 Rhaid i bawb sy'n cefnogi technegwyr fferyllol cyn-gofrestru dan hyfforddiant ystyried canllawiau'r CFfC ar diwtora fferyllwyr a thechnegwyr fferyllol yn eu gwaith.



Dogfennau cefnogol eraill

- **Safonau ar gyfer gweithwyr fferyllol profesiynol** CFFC (2017)
- **Meini prawf cofrestru'n dechnegydd fferyllol** CFFC (2013)
- **Fframwaith Tystiolaeth Drafft CFFC (2017)**
- **Sut i fynegi pryder wrth y CFFC**
- **Canllawiau ar diwtora ar gyfer fferyllwyr a thechnegwyr fferyllol** CFFC (2014)
- **Achredu a chydabod rhaglenni technegwyr fferyllol** CFFC (2010)



Cyngor Fferyllol Cyffredinol
25 Canada Square, Llundain E14 5LQ
F 020 3713 8000
E info@pharmacyregulation.org

 @TheGPhC
 TheGPhC
 /company/general-pharmaceutical-council
www.pharmacyregulation.org